# MENTRO

## Ebrill - Gorffennaf 2019

mentro venture
CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Mae Mentro wedi'i lunio i baru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n barod i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am gyfle i gychwyn ffermio yn annibynnol. Mae'n rhoi arweiniad i bobl ar y ddwy ochr trwy'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig sy'n cynnwys hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chefnogaeth busnes yn darparu'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i gyflawni eu hamcanion.


Gallai'r camau allweddol ar y **daith Mentro** gynnwys y canlynol...




## Sgôr RAG

Coch | Melyn | Gwyrdd

| Gwyrdd | Prosiect a digwyddiadau yn cyrraedd y targed |
|---|---|




**492**
DATGANIAD DIDDORDEB WEDI'U CYFLWYNO ERS DECHRAU'R RHAGLEN

**201**
O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL




YN CHWILIO AM BARTNER

WEDI CANFOD PARTNER

WEDI CWBLHAU MENTER AR Y CYD



**41,000**
ERW
O DIR WEDI COFRESTRU

**119**
WEDI CANFOD PARTNER


* *Mae cyfranogwyr gweithredol yn cyfeirio at y rheiny sydd wedi ymuno'n llawn â'r rhaglen trwy gwblhau proffil Mentro neu'n derbyn cyngor cynllunio busnes i sefydlu menter ar y cyd ar hyn o bryd.*

* *Mae'r erwau o dir sydd wedi cofrestru yn cynnwys cyfeirio at dir yr holl Ddarparwyr sydd wedi ymuno â'r rhaglen Mentro, yn cynnwys tir sy'n cael ei hysbysebu, tir sydd â Cheisiwr posib wedi neilltuo iddo, tir sy'n rhan o fenter ar y cyd wedi cwblhau a thir y rheiny sydd yng nghamau cyntaf y broses.*

* *Mae Darparwyr sy'n cynnig cyfle yn cyfeirio at dirfeddianwyr sy'n hysbysebu eu cyfle yn gyhoeddus ar hyn o bryd.*

* *Mae'r rheiny sydd wedi canfod partner yn cynnwys unigolion sy'n datblygu menter ar y cyd newydd gyda phartner busnes posib yn ogystal â'r rheiny sydd wedi cwblhau'r broses ac wedi sefydlu menter ar y cyd newydd.*


### Cymhareb Ceiswyr a Darparwyr (heb gynnwys y rhai sydd wedi canfod partner)





### Statws




### Sector (cyfranogwyr gweithredol yn unig)



## Digwyddiadau

### Meithrin Menter

Cafodd Meithrin Menter ei lansio i gefnogi mentrau ar y cyd newydd a sicrhau eu bod yn medru delio ag unrhyw rwystrau yn ystod blynyddoedd cyntaf y cytundeb.

Cafodd y rhaglen ei rhannu'n ddwy ran; cwrs un diwrnod wedi'i lunio ar gyfer darparwyr a chwrs un diwrnod wedi'i lunio ar gyfer y ceiswyr.

Roedd pynciau trafod y cwrs darparwyr yn cynnwys:

- Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd yn dringar
- 'Gadael fynd' o redeg y busnes o ddydd i ddydd
- Beth sy'n gwneud perthynas fusnes llwyddiannus?
- Cynnal cytundeb llwyddiannus

Roedd pynciau trafod y cwrs ceiswyr yn cynnwys:

- Sgiliau rheoli ariannol a chyllidebu
- Beth sy'n gwneud perthynas fusnes llwyddiannus?
- Archwilio'r defnydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol
- Rheoli disgwyliadau

### Cynhadledd Dechrau Ffermio

DECHRAU FFERMIO START TO FARM

Cafodd y gynhadledd Dechrau Ffermio ei chynnal ar y 4ydd o Fehefin a denwyd **80** o gynrychiolwyr yn cynnwys unigolion o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Hannah Jackson (y Red Shepherdess) a Cody Wood o'r UDA. Cafwyd gweithdai byr ar fentrau ar y cyd, sicrhau cyllid a pholisïau i newydd ddyfodiaid. Roedd **38** o'r cynrychiolwyr wedi cofrestru gyda Chyswllt Ffermio.

### Bŵtcamp Busnes

Cafodd y Bŵtcamp Busnes cyntaf ei gynnal ym mis Mehefin yn Nant Gwrtheyrn.

Cwrs preswyl dwys yw Bŵtcamp Busnes Cyswllt Ffermio a ddyluniwyd i roi'r hyder, sgiliau a'r ysgogiad i newydd-ddyfodiaid i amaeth fanteisio ar gyfleoedd, datblygu busnesau effeithlon ac adeiladu gyrfa lwyddiannus. Rhoddir pwyslais ar fentrau ar y cyd a ffermio cydweithredol a bydd angen i'r rhai sy'n cymryd rhan gofrestru gyda'r rhaglen Mentro.

Mynychodd **9** unigolyn a chafwyd adborth da iawn.

Roedd y rhaglen yn cynnwys:

- Gwneud argraff dda – Alun Jones, Prif Weithredwr Menter a Busnes
- Gweithdy entrepreneuriaeth – Tim Penn, Signature Leather a Model Rôl Syniadau Mawr
- Sut mae cytundeb ffermio cyfran yn edrych? – Wendy Jenkins, Cara Wales
- Manteision meincnodi a DPA – Marc Jones, ADAS
- Cyfleoedd busnes – Elaine Rees Jones, Arweinydd Agrisgôp a Mentor Arallgyfeirio
- Darganfod i ba gyfeiriad yr hoffech fynd a sut i fynd ati – Wyn Owen, Ymgynghorydd Datblygiad Sefydliadol
- Ymweliad fferm – Rhys Williams, Fferm Trygarn
- Siaradwr ysgogol – Matthew Jackson

BŴTCAMP BUSNES
MYNNWCH EICH LLE YN Y BYD AMAETH

## Astudiaethau Achos

### Mentro yn helpu newydd ddyfodiad i gael cyfle i ffermio sydd "bron yn berffaith"

Mae teulu Carine Kidd wedi ffermio Glanmynys ger Llanymddyfri ers cenedlaethau. Roedd hi'n awyddus i ddiogelu dyfodol y fferm, rhannu'r cyfrifoldeb am redeg y fferm o ddydd i ddydd, a chaniatáu i'r fferm barhau i ddatblygu.



Roedd cytundeb ffermio cyfran cynnig yr ateb iddi, a hysbysebwyd y cyfle trwy Agri Advisor a rhaglen Mentro Cyswllt Ffermio. Canlyniad hyn yw'r cytundeb sydd gan Carine erbyn hyn gyda Peredur Owen, mab i ffermwr o ogledd Cymru.

Roedd Peredur wedi bod yn gweithio i Dunbia ond roedd eisiau sicrhau troedle iddo'i hun yn y byd ffermio; roedd y potensial i ffermio yng Nglanmynys a maint y fferm sy'n ymestyn i oddeutu 500 o erwau, yn gyfle cyffrous. Mae Peredur yn dweud bod y gefnogaeth a ddarparwyd gan Mentro'n bwysig i'r broses. "Nid oedd unrhyw un ohonom wedi mynd i mewn i gytundeb fel hyn o'r blaen. Roedd Mentro wedi'i gwneud hi'n bosibl i ni gael y cymorth arbenigol gorau sydd ar gael i gynhyrchu contract realistig ac effeithiol."

Dechreuodd y pâr ffermio gyda'i gilydd ym mis Tachwedd 2018 ac, erbyn hyn, maent yn rheoli diadell o 700 o famogiaid bridio ac 150 o ŵyn, 25 o wartheg sugno Simmental croes a 40 o stoc ifanc Angus croes. Y nod yw tyfu glaswellt yn effeithlon a throi porthiant o ansawdd da yn bwysau byw.

Cliciwch yma i ddarllen mwy.

### Y newydd-ddyfodiad ifanc, Llŷr Evans o Sir Benfro, yn cael cyfle penigamp gan ei fam-gu a'i dad-cu! Bu rhaglen Mentro Cyswllt Ffermio o gymorth hefyd

Mae hi'n ddwy flynedd ers i'r newydd-ddyfodiad ifanc, Llŷr Evans, gael cyfle unigryw gan ei dad-cu a'i fam-gu John a Dailwen Vaughan sy'n ffermio Glasdir, fferm eidion a defaid ger Boncath yn Sir Benfro. Gyda chefnogaeth gan raglen Mentro Cyswllt Ffermio, aeth John a Dailwen i gytundeb partneriaeth gyda Llŷr gan roi cyfran o 51% iddo yn y stoc da byw. Mae hyn yn golygu bod Llŷr, sy'n ddim ond 21 oed, yn cynhyrchu ei fuddsoddiad cyfalaf ei hun yn barod, gan ddysgu sut i reoli busnes fferm llwyddiannus ar yr un pryd ochr yn ochr â'i dad-cu hynod brofiadol.



"Nid yn unig y mae Llŷr yn ŵyr i ni, mae'n ffermwr ifanc uchelgeisiol iawn. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod y busnes yn perfformio ar ei orau ac, am ei fod yn gallu meincnodi gyda busnesau tebyg eraill, mae'n gwybod at beth mae'n anelu ac mae'n benderfynol o ddatblygu'r busnes ymhellach," meddai John.

Cliciwch yma i ddarllen mwy.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government